

PENNOD 11: POBL ESTRON

Eseia 49. 6

Fe'th wnaif di yn oleuni i'r cenhedloedd, i'm hiachawdwriaeth gyrraedd hyd eithaf y byd.

Hanesion Matthew a Luc sy'n gosod allan y llwyfan i brif themâu'r Efengyl. Absennol mae gŵyr mawr gwladwriaeth ac eglwys, fel Herod a'r Archoffeiriad. Mae'n ymddangos fel nad oes angen newyddion da arnynt hwy. Efallai eu bod yn credu mai hwy yw'r newyddion da. Y bugeiliaid di-bwys glywodd yn gyntaf, wedyn hen bobl! Ar eu hól hwy daw estroniaid o'r dwyrain. Mae hyn yn dilyn addewid Duw i Abraham, "ac ynot ti y bendithir holl deulu'r llawr."⁵⁸ Ail-adroddir lle'r cenhedloedd ym mhwrpas Duw nifer o weithiau yn yr Hen Destament ac, yn arbennig, yn Llyfr Eseia, sy'n cyhoeddi'n bendant na fydd cenhadaeth y Meseia yn cael ei chyfyngu i'r Iddewon: "fe'th wnaif di yn oleuni'r cenhedloedd, i'w hiachawdwriaeth gyrraedd hyd eithaf y ddaear."⁵⁹ Beth bynnag yw'n hymateb i stori'r Doethion, mae ganddi werth symbolaidd mawr wrth ddod â dwyrain a gorllewin at ei gilydd, gan uno'r byd yng nghyfmod Duw.

Dim ond bugeiliaid yw'r bugeiliaid ond pwy yw'r rhai hyn? Yn y Gymraeg disgrifiwyd hwy fel "doethion" neu "seryddion," tra bod gan y Beiblau Saesneg nifer o enwau arnynt: "doethion, dynion yn astudio'r sêr, sêrddewiniaid, magi." Ni cheir eu rhif gan Mathew ond, gan fod yna dair anrheg, cymerir bod yna dri yn rhoi. Tyfodd tradoddiadau cyfoethog o'u cwmpas. Cawsant eu henwi fel Caspar, Brenin India, Melchior, Brenin Persia a Balthazar, Brenin Arabia. Mae ambell i stori yn dweud bod un yn hen, un yn ifanc ac un yn ganol-oed. Honnir eu bod yn ddisgynyddion Noa trwy ei feibion, Cham, Shem a Jaffeth. Cafodd geiriau Eseia ddylanwad mawr: "Fe ddaw'r cenhedloedd at dy oleuni, a brenhinoedd at ddisgleirdeb dy wawr,"⁶⁰ ac wedyn, "Bydd dy byrth yn agored bob amser, heb eu cau ddydd na nos, er mwyn dwyn golud y cenhedloedd atat, gyda'u brenhinoedd yn osgordd."⁶¹ Ail-adroddir yr addewid hon yn Llyfr y Datguddiad: "A bydd y cenhedloedd yn rhodio yn ei goleuni hi, a brenhinoedd⁶² y ddaear yn dwyn eu gogoniant i mewn iddi. Byth ni cheuir ei phyrth y dydd, ac ni bydd nos yno."

Ar gais ei fam Helena, cododd yr Ymherodr Cystennin bump basilica mawr yn y Wlad Sanctaidd. Distrywiwyd pob un gan y Persiaid ar wahân i Eglwys y Geni ym Methlehem. Pam y cafodd Bethlehem ei hachub. Os ewch i fewn i Eglwys y Geni heddiw ac edrych i fyny 'r dde, gwelir olion mosaig o'r doethion, dynion mewn gwisg Bersiaidd. Yn ôl yr hanes, pan aeth milwyr Persia i fewn yn y flwyddyn 625, gyda'r bwriad o ddifrodi'r eglwys hon hefyd, gwelsant y mosaig a dweud, "Pwy bynnag yw'r dynion hynny, mae eu gwisg yn dweud eu bod yn pethyn i ni" ac arbedwyd yr adeilad, sydd bellach yn adeilad Cristnogol hynaf y byd.

Daeth y doethion i Fethlehem trwy iddynt ddilyn seren. Coeliwyd bod y sêr yn cael dylanwad mawr ar fywydau dynol ac ar ddigwyddiadau. Cysylltwyd ffenomenau sêr-ddewinol â geni dynion mawr megis Alecsander a Chesar Awgwstws. Mae'r Sgroliau Môr Marw yn sôn i Seimon bar Cochba, arweinydd gwrthryfel Iddewig 132-135 OC gael ei alw'n "Mab y Seren" a'i gyfarch fel Meseia'r genedl.

Roedd y byd yng nghyfnod geni'r Iesu yn llawn disgwyliad a phorthwyd y disgwyl hwn gan adroddiadau sêr-ddewiniaid o gyffro yn y nefoedd. Cyfarfu lau a Sadwrn deirgwaith yn y flwyddyn saith cyn Crist, a gwelwyd seren gynffonog Hailey yn y flwyddyn deuddeg oed Crist. Ac arweiniwyd y triawd yma ar daith anferth i'r gorllewin wrth iddynt ddilyn eu seren.

Mae Oracl Balaam yn datgan: "Fe'i gwelaf ef, ond nid yn awr; edrychaf arno, ond nid yw'n agos. Daw seren allan o Jacob, a chyfyd teyrnwialen o Israel..."⁶³ Y mae gan y Salmydd addewid debyg: "Bydded i frenhinoedd Tarsis⁶⁴ a'r ynysoedd ddod ag anrhegion iddo [y brenin], ac i frenhinoedd Sheba⁶⁵ a Seba⁶⁶ gyflwyno eu teyrnged. Bydded i'r holl frenhinoedd ymostwng o'i flaen, ac i'r holl genhedloedd ei wasanaethu."⁶⁷

O'r diwedd dyma'r tri yn cyrraedd Jerwsalem, prif-ddinas yr Iddewon a'r unig le i frenin yr Iddewon gael ei eni. Cawsant eu derbyn gan y Brenin Herod ac, wedi iddo ymgynghori â'i gynghorwyr, danfonodd ei ymwelwr i Fethlehem ac yno yr aethant i fewn i ogof-stabl y gwesty.

Pa ymateb, tybed, oedd gan y tri phererin i'r ffaith i'w seren eu harwain i'r fath le? Pe byddai unrhyw olau yno o gwbl, rhywbeth gwan fyddai hwnnw, ar gyfer anifeiliaid ac ymhell iawn o'r hyn fu ar gael mewn palasau brenhinol. "Daethant i'r tŷ a gweld y plentyn gyda Mair ei fam; syrthiasant i lawr a'i addoli..." Mae trefn y digwyddiadau hyn yn bwysig iawn. Y peth cyntaf iddynt hwy a phawb arall yw'r addoli, offrymu'r hunan. Ail-adrodd drosodd a thro mae'r proffwydi yr hyn y mae Duw am ei gael yn bennaf oll gennym, a phopeth arall yn dilyn ar hynny. Ar ôl iddynt addoli'r plentyn daeth yr amser i gyflwyno eu hanrhegion – aur a thus a myrr. Fel popeth arall yn hanes y Geni, y mae yno werth symbolaidd mawr i'r anrhegion hyn.

Aur sy'n dod yn gyntaf bob tro. Aeth Brenhines Sheba ar ymweliad â'r Brenin Solomon, "daeth i'w brofi gyda'i cwestiynau caled. Daeth i Jerwsalem gyda gosgordd niferus – camelod yn cludo peraroglau a stôr fawr o aur a

Y Noson Honno: Myfyrdodau trwy'r adfent gan Thomas Ivor Rees

gemau...⁶⁸ Yn yr un bennod, sonnir am "holl frenhinoedd y ddaear.... Bob blwyddyn dôi rhai a'u rhoddion – llestri aur ac arian..."⁶⁹ Cynrychiola aur brenin ei gyfoeth a'r gallu ddaw iddo i brynu unrhyw beth. Cynrychiola hefyd fywoliaeth, llwyddiant, eiddo a'r awydd amdanynt. Mae'n symbol o waith, masnach, cyllid a gwleidyddiaeth. Daeth y brenhinoedd ag aur i Solomon, un a chymaint o aur ganddo eisoes, yn ogystal â nerth gwleidyddol a grym milwrol. Achos trybeini yw aur os na wnaiff y rhai sy'n ei offrymu, yn gyntaf offrymu eu hunain a'u heiddo i Dduw mewn addoliad hunan-aberthol.

Aur yw anrheg gyntaf yr ymwelwyr i'r baban tlawd, i'r hwn "nad oedd le iddynt yn y gwesty," ar adeg pan oedd teyrn mwyaf y byd yn cynnal cyfrifiad i sicrhau bod ei ddeiliaid yn ildio eu haur iddo ef.

Thus a'i arogl melyn yw'r ail rodd. Defnyddir thus i wneud persawr neu arogl-darth, anrheg addas i offeiriad. Rwyn cofio sefyll ar ganol dorf ar drcymudwr allan o San Francisco a'r cymudwyr mewn dillad smart yn cwyno. Yn sefyll yn agos iawn ataf oedd menyw mewn dillad busnes, Ar ôl iddi ffroenu'r awyr ddwywaith, gwaeddodd, "O leiaf y mae pawb ag arogl hyfryd!" Y fath ollyngdod! Rhaid fod fy thus wedi para. Ond beth amdanom y tu fewn, ninnau a'n cymunedau, ein heglwysi a'n byd? Sut arogl sydd arnynt hwy?

Symbol yw thus o wyddoniaeth, y celfyddydau ac offeiriadaeth. Beth yw gwyddoniaeth heb addoliad ond rhyfel cemegol, arfau niwclear, arteithio sycologol a chorfforol, heb unrhyw ofal am na phobl na'r amgylchfyd? Un o'r canlyniadau yw cynhesu hollfydol. Beth yw'r celfyddydau heb addoliad, ond propaganda neu bornograffi, mynegiant o adfeiliad. Wedyn, yr anrheg offeiriadol: y mae hanes yn llawn ohoni'n cael ei defnyddio heb addoliad, gan arwain at draha eglwysig neu glerigol, a balchder enwad, diwinyddiaeth neu eglwys leol. Y mae gan yr Eglwys ei hoffeiriadaeth yn y byd ar ran Crist, yn addoli Duw ar ran y cenhedloedd oll, yn adeiladydd pont (ponifecs) rhwng unigolion, cenhedloedd ac hilliau. Gwelsom eisoes fod Eiseia yn addo y bydd brenhinoedd yn dod â chyfoeth y cenhedloedd ato: "daw camelod masnach o Midian, Effa a Sheba; byddant i gyd yn cludo aur a thus, ac yn mynegi moliant yr Arglwydd."⁷⁰ Rhaid bod gan eiriau'r proffwyd le canolog yn natblygiad traddodiad y tri brenin.

Myrr yw'r olaf; yn ddrud iawn a theilwng o Dduw. Sonia Llyfr yr Exodus⁷¹ am yr olew eneinio cysegredig, i'w baratoi gan Foses i eneinio pabell y cyfarfod, y tabernacl a'i ddodrefn, er mwyn i'r cyfan fod yn sanctaidd. "... i Aaron yr offeiriad a gwisgoedd ei feibion, er mwyn iddynt hwythau wasanaethu fel offeiriad, olew yr eneinio. A'r arogl-darth peraidd ar gyfer y cysegr..."⁷² Defnyddiwyd myrr hefyd i bêr-eneinio cyrff y meirw ac fel arogl-darth edifeiriol tan y bymthegfed ganrif. Caiff ei ddefnyddio o hyd gan yr Eglwys Uniongred i roi persawr i olew sanctaidd ei sacramentau megis eneinio adeg bedydd ac eneniad cyn marw. Disgrifir y rhai sy'n derbyn y sacramentau hyn fel rhai "sy'n derbyn y myrr."

Blas chwerw sydd gan fyrr ac yr oedd yn arwydd addas o frynti'r stabl lle cafodd y plentyn ei eni, yn ogystal â'r ffordd y mae'n rhaid iddo rodio arni i ollwng cariad gwaredigol Duw i'r byd. Cynrychiola'r byd yn ei holl chwerwder ond hefyd y balm sy'n ei iacháu. Daw'r doethion gyda'u myrr fel y bugeiliaid yn eu tloidi at y preseb, lle bydd pawb yn cael eu hail-gylchu – eu geni drachefn neu eu hatgyfodi o farwolaeth fyw. Os ewch heddiw i Eglwys y Geni, rhaid hyd yn oed i'r byrraf blygu pen, am fod y drws yn isel. Dewisodd y tri brenin, os brenhinoedd oeddent, blygu pen o flaen y preseb canys dyna'u hangen. Rhaid i unigolion, eglwysi a chenhedloedd balch wneud yr un peth.

Disgrifiodd Origen⁷³ anrhegion y Doethion yn ei *Contra Celsum* fel aur i frenin, myrr i feidrol ac arogl-darth i Dduw." Cymerwyd ei thema i fyny yn y garol "Tri ym ni o'r Dwyrain draw", sydd â pennill yr un i'r aur, thus a myrr, gyda'r pennill olaf yn cyhoeddi:

Atgyfododd, torrodd gwawr,
Brenin, Duw, ac Aberth mawr,
Alelwia, Alelwia,
Canu mae daear lawr.⁷⁴

Yn sydyn, mae'r anturiaeth drosodd iddynt hwy. Rhaid iddynt ddechrau ar eu taith hir adref. Rhaid bod eu hamser yn y stabl wedi teimlo'n fyr iawn, yn arbennig ar ddiwedd y blynyddoedd o aros, disgwyl ac edrych a'r misoedd o baratoi a theithio. Ond newidiwyd eu trefniadau ar y funud olaf, gan iddynt gael "eu rhybuddio mewn breuddwyd i beidio â dychwelyd at Herod, aethant yn ôl i'w gwlad ar hyd ffordd arall."

Daw ein dramâu Nadolig i ben fel arfer gyda'r Brenhinoedd yn offrymu eu rhoddion. Ond, ai dyna ddiwedd eu stori neu'r dechrau? Ar eu taith adref a ydynt, fel y bugeiliad, yn dweud eu stori wrth bawb wrth aros rywle bob nos? Aeth tua deugain mlynedd heibio cyn i efengylwyr deithio i'r Dwyrain gyda'u newyddion da o Iesu Grist. Daethant o hyd i gymunedau o bobl a roddodd groeso cynnes iawn iddynt, am fod hanes y Geni eisoes yn gyfarwydd iddynt. Mil o flynyddoedd wedyn, teithiodd Marco Polo⁷⁵ deirgwaith i Tsieina. Ar ei daith olaf bu oddi cartef am bedair blynedd a'r hugain. Dywedodd i feddau y Doethion gael eu dangos iddo yn ninas Saba, i'r de o Teheran, yn t 1270au. Honodd mai'r ddinas hon oedd man cychwyn a gorffen eu taith i Fethlehem ac iddynt gael eu claddu mewn tri beddrod mawr a hardd mewn adeilad sgwar gafodd ofal da iawn. Roedd y cyrff yn gyfan, pob un a'i wallt á'i farf.

Beth oedd eu ffordd adref? Ni wyddom. Wrth fynd ar daith, da gan lawer ohonom ddychwelyd ar ffordd wahanol er mwyn newid golygfa. Yn ôl Mathew aethant ar ffordd arall er mwyn osgoi mynd i Jerwsalem ac at Herod. Ond yn sicr y mae yna fwy i'r stori na hynny. Hyd yn oed pe byddent wedi dychwelyd ar yr un llwybr byddai'r ffordd wedi bod yn newydd iddynt. Gwnaeth eu profiad yn y stabl eu newid yn gyfangwbl. Byddai popeth yn edrych yn

Y Noson Honno: Myfyrdodau trwy'r adfent gan Thomas Ivor Rees

newydd iddynt. Nid ychwanega Mathew ddim i'r hanes ond disgrifia Luc y bugeiliaid yn dychwelyd at eu bywyd pobdydd, eu gwaith caled a pheryglus, a'u statws israddol ond aethant gan "ogoneddu a moli Duw am yr holl bethau a welsant ac a glywsant, yn union fel y llefarwyd wrthynt."

*Arglwydd Dduw, golau seren arweiniodd y doethion at Iesu.
Gweddiwn y caiff Newyddion Da dy gariad gwardigol
gael eu clywed hyd eithafoedd byd trwy oleuni dy Air
a thystiolaeth ffyddlon dy Eglwys,
fel y daw'r holl bobloedd atat;
trwy Iesu Grist ein Ceidwad.*

Cwestiynau i'w hystyried neu i'w trafod

Yn ei "Journey of the Magi", mae doethion T. S. Eliot, wrth iddynt fynd adref yn holi ai geni neu marwolaeth welsant? Gwnewch sylw.

Daeth y Doethion ag aur, thus a myrr. Beth a wnawn (1) ni (2) a'n cenhedlaeth gyda'r hyn a gynrychiolir gan y rhoddion hyn?

Anrhydeddir yr estroniaid hyn yn hanes yr efengyl. Ble arall yr anrhydeddir estroniaid? Beth yw'r neges i ni?

Sut ymatebwn ni (1) i Gristnogion o gefndir gwahanol (2) i bobl o grefydd gwahanol, diwylliant gwahanol (3) i ddioddefiadau pobl ymhell ac agos yn tlodi, anghyfiawnder, poen ac unigrwydd?

Beth am y trueiniaid sy'n chwilio am gymorth neu lloches?